**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Medi 21ainain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Margaret Bowe, Rob Parkes (cyrhaeddodd 6.57pm), Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams (cyrhaeddodd 6.53pm), Colin Hughes (cyrhaeddodd 7.02pm), Colin L Hughes, Brian Davies (cyrhaeddodd 6.46pm), Roy Tickle, Mark Young (cyrhaeddodd 6.38pm), Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau: Cyng** Philip Stevens a Shereen Devine; Colin Hughes (hwyr).

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**74.** **Cyflwyniad gan Denbigh Community First Responders.** Croesawodd y cadeirydd Dyfrig Roberts a John McGuire a'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod. Roedd y ddau yn aelodau o dîm Denbigh First Responders. Roedd y tîm yn edrych ar ososd Public Access Defibrillators yn y dref. Roedd dau wedi ei leoli yn barod - un yn Ysgol Twm o'r Nant ac un yng Nghanolfan Hamdden Dinbych. Roedd y First responders ar gael i roddi cefnogaeth a chymorth. Roedd John McGuire yn gweithio i Wasanaeth Ambiwlans Cymru. Roedd 10,000 o achlysuron yn y DU bob blwyddyn oherwydd trawiad ar y galon. Roedd pob munud o oedi yn cynyddu'r siawns o drawiad calon 10%. Wyth munud a hanner ar gyfartaledd oedd amser ymateb yr ambiwlans yn yr ardal. Dylid gwneud galwad 999 i ddechrau. Dangosodd John McGuire defibrillator a sut oedd yn gweithio. Roedd y peiriant yn un syml i'w ddefnyddio ac yn rhoddi cyfarwyddyd fel yr oedd yn cael ei ddefnyddio. Byddai angen saith Defibrillators ar gyfer y dref yn gyfan gwbl a dosbarthwyd gwybodaeth ar sut y gellir cyflenwi hyn. Cost yr offer oedd £1,000 i'w brynu gyda £700 yn ychwanegol ar gyfer cabinet diogel - byddai hefyd angen cyflenwad trydan.

Ymatebodd y ddau i sylwadau a chwestiynau'r aelodau ar: (1) sut oedd y cyhoedd i wybod fod yr offer ar gael, (2) fandaliaeth, (3) galwadau 999, (4) lleoliad yr un oedd i'w osod yn y Co-op, (5) argaeledd Defibrillators mewn ysbytai.

Diolchodd y cadeirydd i'r ddau am eu presenoldeb a'u cyflwyniad ac am y gwaith yr oeddynt yn ei gyflawni yn yr ardal.

**75.** **Cyflwyniad gan Adran Cynllunio CSDd ynglŷn â briff datblygu drafft safleoedd y Brwcws**. Croesawodd y cadeirydd Bryn Bowker, Swyddog Cefnogi Cynllunio gyda CSDd a'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod. Eglurodd Mr Bowker gefndir y briff datblygu a chyfeiriodd at y ddogfen berthnasol. Derbyniwyd pryderon ynglŷn ag effaith ar y ffordd a mynediad i ac oddi ar y safle a'r ddau safle yn dod ymlaen gyda'i gilydd. Roedd angen rhoddi ystyriaeth i (1) coridor ar gyfer bywyd gwyllt fel draenogod, ystlumod, (2) llifogydd, (3) Roedd Eglwys y Santes Farchell wedi ei rhestru gradd un a chynllun y tai i ategu'r adeilad, (4) carthffosiaeth. Roedd hwn yn gyfle i gyfeirio at yr holl faterion yma. Dyddiad cau'r ymgynghoriad oedd Hydref 30ain 2015. Yn y man yma datganodd y cadeirydd ddiddordeb personol, Aeth y cadeirydd ymlaen i ddweud fod y mater yn un tra chynhennus. Datganodd y Cyng Medwyn Williams ddiddordeb gan ei fod yn swyddog priffyrdd gyda'r cyngor sir.

Ymatebodd Mr Bowker i sylwadau a chwestiynau'r aelodau ar: (1) ymgynghoriad, (2) lleoliad mynedfa, (3) nifer tai a fwriedir (tua 101 & 73), (4) dim diddordeb ar hyn o bryd yn y ddau safle, (5) parcio yng Nghapel Brwcws a'r Santes Farchell ar gyfer priodasau ac angladdau, (6) angen gwell cyfathrebiad oddi wrth GSDd, (7) tai fforddiadwy, (8) cyn safle Ysbyty Gogledd Cymru fel safle arian annisgwyl, (9) dŵr wyneb yn rhedeg i ffwrdd oddi ar safle ar osgo a llifogydd, (10) cynhwysedd carthffosiaeth, (11) gwahaniaeth rhwng yr CDU a'r CDLl ynglŷn â datblygu'r ardal yma.

Aeth Mr Bowker ymlaen i awgrymu ei fod yn mynychu cyfarfod y cyngor ym mis Tachwedd i ddiweddaru'r aelodau yn dilyn yr ymgynghoriad yn dod i ben. Cytunwyd ar hyn.

Diolchodd y cadeirydd i Mr Bowker am ei bresenoldeb a rhannu gwybodaeth a'r cyngor.

**76.** **Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**77.** **Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol

(1) Cyng Raymond Bartley - personol - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(2) Cyng Geraint Williams - personol - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(3) Cyng Colin Hughes - personol - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(4) Cyng Margaret Bowe - eitem agenda 19 - Inffyrmari Dinbych - personol.

**78.** **Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Orffennaf 27ain 2015.**

**79.** **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**80.** **Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd a nodwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Diolchodd y Maer i'r Dirprwy Faer am fynychu gweithgareddau lle bu dau weithgaredd ar yr un adeg. Un mater ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr sef presenoldeb mewn dathlu pen-blwydd priodas 65 oed cwpwl yn Ninbych ar Fedi'r 19eg.

**81.** **Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi pedwar eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Llywodraeth Cymru, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Drafftio Canllawiau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dywedodd clerc y dref fod hon yn damaid o ddeddfwriaeth gymhleth ac yn effeithio ar gynghorau tref a chymuned gydag incwm neu wariant o £200,000 y flwyddyn. Cytunwyd i glerc y dref fynychu digwyddiad ymgynghori yn Llandudno ar Dachwedd 4ydd 2015. I gyfeirio'r ddogfen at yr is bwyllgor archwilio dogfennau.

**82.** **Cynllunio**: 1. Ceisiadau Cynllunio. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu y cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

Tir cyffiniol a Fron Deg, Ffordd Rhuthun - dilead yn amodau rhif 7,8 & 9 o ganiatâd cynllunio amlinellol rhif 01/2014/0072 yn gysylltiol a chod cartrefi cynaliadwy.

2. Materion cynllunio eraill: Ymgynghoriad CSDd - briffiau datblygu safle - Dinbych, Diserth a Gallt Melyd. Trafododd y cyfarfod y briff oedd ond yn berthnasol i safle Brwcws yn Ninbych. Yn dilyn cynnig gan y Cyng Colin Hughes a eiliwyd gan y Cyng Mark Young, **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y cyngor tref yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, gan barhau'r thema'r ymateb gwreiddiol i wrthwynebu ar sail (1) diogelwch, (2) llifogydd, (3) lleoliad hanesyddol, (4) yr angen a'r cynaladwyedd o ystyried y byddai'r awgrymiadau ar gyfer cyn safle Ysbyty Gogledd Cymru yn ymddangos yn ddigon ar gyfer anghenion y dref, (5) pwysau ar wasanaethau cyhoeddus y dref yn dilyn yr ehangiad.**
Dywedwyd fod yr hawl gyfreithiol i ddatblygu eisoes wedi ei wneud a hwyrach y bydd angen cynllun B gan y cyngor tref fel dewis arall os fyddai'r mater yn mynd yn ei flaen.

**83.** **Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fedi'r 14eg 2015.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fedi'r 14eg 2015.

**84.** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Cyfarfod Brys mis Awst. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar Awst 25ain 2015

**85.** **Adroddiadau**: (1) Rheolaeth Neuadd y Dref. Cafwyd adroddiad ar gyfarfod diweddar gan y Cyng Medwyn Williams, fel cadeirydd y grŵp. Cafodd y grŵp daith o amgylch yr adeilad i weld pa waith fyddai ei angen yn y dyfodol. Roed CSDd wedi cyflawni nifer o newidiadau ar un ar y gweill oedd y drws diogelwch newydd ar waelod y prif risiau. Roedd y berthynas rhwng y sir a'r grŵp i weld yn gweithio'n dda. Roedd y sefyllfa gyllidol i weld yn dda.

(2) Gefeillio. Nodwyd cofnodion cyfarfod diweddar a dderbyniwyd gan y cyngor dref.

(3) CCTCGC. Cafwyd adroddiad ar gyfarfod diweddar gan y Cyng Colin Hughes, fel ysgrifennydd y ddolen gyswllt. Roedd yr agenda yn un arferol. Mynegwyd pryderon ynglŷn â diffyg presenoldeb gan rai o Biwmares. Rali Geir Hydref 4ydd yn dechrau yn Ninbych am 9 y bore, yn galw yng Nghonwy a gorffen yng Nghaernarfon - gyda dolennu dewisol drwy Biwmares ar gael. Tua 100 o geir hyd yn hyn. Roedd CSDd yn caniatáu defnydd o faes parcio Caledfryn yn rhad ac am ddim. Cystadleuaeth golff blynyddol yn Ninbych gyda Dinbych yn ennill a'r tlws yn dod yn ôl adref. Y gystadleuaeth Bowlio flynyddol ar Fedi'r 20fed ym Miwmares. Y Cyfarfod Blynyddol yng Nghonwy ar Dachwedd 19eg a'r Cinio Blynyddol yn Nhŷ Bwyta Times yng Nghonwy ar Ionawr 23ain 2016.

(4) Drysau'n Agored yn Ninbych Medi 19eg a'r 20fed. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod grŵp bychan wedi trefnu penwythnos llwyddiannus. Roedd y niferoedd yn mynychu yn galonogol.

(5) Pen blwydd 150 Gorsaf Dân Dinbych - Medi'r 20fed. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod cannoedd wedi mynychu'r digwyddiad. Roedd yr Awdurdod Tân wedi ei blesio gyda'r digwyddiad. Roedd yn galonogol gweld nifer o gyn diffoddwyr tân Dinbych yn bresennol. Cytunwyd i yrru llythyr yn diolch am y digwyddiad i'r Prif Swyddog Tân a Chadeirydd yr Awdurdod Tân a hefyd am eu gwaith yn y gymuned.

(6) Carnifal Dinbych a Gŵyl Ganol Haf Dinbych. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle a'r gyfarfodydd blynyddol y ddau grŵp. Ail etholwyd swyddogion y ddwy ên bloc.

(7) Llywodraethwyr Ysgol Frongoch. Dywedodd y Cyng Gaynor Wood fod y prifathro newydd, Dylan Thomas, yn ymgyfarwyddo ei hun a'r ysgol yn symud ymlaen yn dda.

(8) Hwb Dinbych. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes ar gyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach yn y dydd. Bu'r Hwb bellach mewn bodolaeth ers 12 mis a bu'r llwyddiant yn ystod y cyfnod yn un ffantastig. Roedd y partneriaethau oedd yn ymglymedig yn wir gryf. Roedd y Cyng Hughes yn falch o fod yn gysylltiol a'r prosiect.

(9) Gwefr Heb Wifrau. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin L Hughes ar noson lwyddiannus gyda nifer dda yn mynychu ar Fedi'r 18fed pan gafwyd sgwrs gan Mrs Wendy Grey Lloyd ar "Life on the Home Front during WW2".

(10) Dywedodd y Dirprwy Faer ei bod wedi mwynhau cyflenwi dros dro ar ran y Maer pan fu dau weithgaredd ar yr un adeg.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**86. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Roedd tîm Tachyn Ysgol Uwchradd Dinbych wedi dod yn bencampwyr y byd yn ddiweddar - yr unig dîm yn y DU i ennill yn llwyr - rhoddi Dinbych ar y map. Cytunwyd i yrru llythyr i Ysgol Uwchradd Dinbych. (2) Gwaith wedi dechrau yn Iard y Stesion ar yr is-orsaf drydan newydd - roedd pethau yn dechrau symud.

(3) Gofynnodd am i lythyr gael ei yrru i GSDd yn gofyn am i doiledau'r dref fod ar agor dydd Gŵyl San Steffan. (4) Andy Howard wedi ei apwyntio fel pennaeth newydd Coleg Myddleton. (5) Ymholiadau cyhoeddus cyn Ysbyty Gogledd Cymru - penderfyniad cyntaf i ddod unrhyw amser. (6) Cyn Swyddfa'r Heddlu ar Stryd y Dyffryn - derbyniwyd pump o ymholiadau ynglŷn â phryniant - i'w wneud drwy gynigion wedi ei selio. (7) Tai gofal ychwanegol yn bosibilrwydd cryf ar safle Lôn Ganol. (8) Parcio ar balmentydd - os llinellau melyn yn bresennol a cheir yn parcio ar y palmant roedd modd dyroddi hysbysiad cosb benodol.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Geraint Williams: (1) Derbyniwyd ariannu o £1m i uwchraddio inswleiddio 108 o dai yn Ninbych Uchaf. (2) Wal Cae Glas - trafodaethau yn mynd ymlaen. (3) Roedd gwrych terfyn wrth Trefeirian angen sylw. (4) Pryderon ynglŷn â muriau terfyn cyn Ysbyty Gogledd Cymru - cerrig nadd wedi ei dwyn - pryderon tebyg ar Ffordd Ystrad - cyfrifoldeb y perchnogion tir. (5) Estyniad i swît ffitrwydd yn y Ganolfan Hamdden yn y broses o gael ei hadeiladu.

3. Dywedodd y Cyng. Colin Hughes ei fod yn y broses o weithredu dros nifer o bobl yn Ninbych Uchaf.

**87. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | A E Dowell (Uproar Fireworks) - balans tân gwyllt<br>(rhif siec 005706) | - | £3,200.00 |
| (2) | Paul Liversidge - clirio llwybrau (Awst)<br>(rhif siec 005707) | - | £165.00 |
| (3) | Pen y Bryn Joinery - gosod cymhwysydd offer chwaraeon ar faes chwarae yn Llys Gwydr<br>(rhif siec 005708) | - | £120.00 |
| (4) | Clerc y Dref - costau teithio (Conwy)<br>(rhif siec 005709) | - | £23.73 |
| (5) | Zen Internet - darpariaeth ADSL (Hydref)<br>(rhif siec 005710) | - | £18.37 |
| (6) | Cyng Colin L Hughes - costau teithio - Conwy x 3<br>(rhif siec 005711) | - | £82.50 |

Cyfanswm taliadau: £3,609.60

**88. CSDd - Cymhwysydd storio a deunydd chwaraeon.** Dywedodd clerc y dref ei fod wedi llogi Pen y Bryn Joinery i bigo'r cymhwysydd i fyny a'i osod ar y maes chwarae yn Llys Gwydr. Cwblhawyd y gwaith. Cafwyd trafodaeth ar y cwestiwn o bwy ddylai gael y goriadau - roedd CSDd wedi darparu rhestr o rai oedd yn bosibl. Cytunwyd i gynnig y goriad i Snuggles Day Nursery gyda'r goriad arall yn cael ei gadw gan y cyngor. Cytunwyd hefyd i osod hysbysiad gyda rhif ffôn rhag ofn argyfwng.

**89. Ad-drefnu / moderneiddio'r cyngor tref.** Adolygwyd y cyfnod arbrofol dros dri mis. Dywedodd clerc y dref fod rhai trafferthion cychwynnol gweinyddol yn bodoli ac angen eu trefnu. Gwahoddodd clerc y dref sylwadau oddi wrth yr aelodau. Aeth clerc y dref ymlaen i ddweud fod angen estyniad i'r cyfnod arbrofol ac awgrymodd gyfnod pellach o dri mis tan ddiwedd y flwyddyn gydag adolygiad pellach ym mis Ionawr 2016. Awgrymwyd a chytunwyd hefyd i'r Pwyllgor Amgylched a Chyllid gyfarfod ar y trydydd dydd Llun am 7 o'r gloch gyda'r Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod ar y trydydd dydd Mawrth am 6.30 o'r gloch ar wahân i fis Rhagfyr pan fydd y cyfarfodydd ar yr ail ddydd Llun a dydd Mawrth. Y cyngor llawn i barhau i gyfarfod ar y pedwerydd ddydd Llun gyda chyfarfod mis Rhagfyr ar y trydydd dydd Llun. Clerc y Dref i baratoi a dosbarthu rhestr o'r dyddiadau.

**90.** **Darlithoedd Treftadaeth Dinbych.** Dywedodd clerc y dref, yn dilyn ymateb gan y cyhoedd, ei fod yn edrych ar y posibilrwydd o drefnu cyfres arall yn gynnar yn 2016. Roedd ymholiadau hyd yn hyn wedi datgelu'r posibilrwydd o saith / wyth o ddarlithoedd yn ymglymu 5 / 6 o ddarlithwyr. Aeth clerc y dref ymlaen i ddweud y byddai ond yn trefnu'r darlithoedd ar sail cefnogaeth lawn y cynghorwyr tref. Cydnabyddodd clerc y dref dderbyn cefnogaeth oddi wrth rhai aelodau ffyddlon. Yn dilyn trafodaeth fer **Penderfynwyd** (12 o blaid gydag un bleidlais yn cael ei hatal) **i drefnu cyfres arall yn 2016 a rhoddodd y cynghorwyr eu hymrwymiad i fynychu cymaint o'r darlithoedd ag oedd bosibl.**

**91.** **Argymhellion Panel Cydnabyddiaeth ar gyfer Cymru.** Cyfeiriodd clerc y dref at y rhannau hynny o'r adroddiad oedd yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned a gofynnodd i'r cyfarfod ystyried pob un o'r chwe penderfyniad oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad. Ystyriwyd a chafwyd pleidlais ar bob un o'r penderfyniadau fel a ganlyn, hynny yw, **i dderbyn yr argymhellion canlynol:**

**(1)** **Penderfyniad (42) -** (12 o blaid gydag un bleidlais yn cael ei hatal) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref wneud taliadau i bob un o'u haelodau hyd at uchafswm o £100 y flwyddyn ar gyfer mynd i gostau ynglŷn â defnyddio teleffon, gwybodaeth technoleg, treuliau ac ati.**

**(2)** **Penderfyniad (43) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref wneud taliadau i bob un o'u haelodau ar gyfer costau teithio tu allan i ardal y cyngor - y taliadau hynny i fod y gwir gostau trafnidiaeth cyhoeddus neu lwfans milltiroedd HMRC.**

**(3)** **Penderfyniad (44) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref ad-dalu costau cynhaliol i bob un o'u haelodau ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd tu allan i ardal eu cyngor yn unol â mwyafsymiau a osodwyd.**

**(4)** **Penderfyniad (47) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i ddarparu lwfans dinesig i'r maer / cadeirydd a dirprwy faer / gadeirydd y cyngor yn y swm yr oeddynt yn ei ystyried yn briodol i gyflawni swyddogaethau'r swydd hynny.**

**Ac i <u>beidio</u> â derbyn yr argymhellion canlynol:**

**(1)** **Penderfyniad (45) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i dalu lwfans presenoldeb i bob un o'u haelodau ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd tu allan i ardal y cyngor yn unol â'r cyfraddau a drefnwyd.**

**(2)** **Penderfyniad (46) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i dalu lwfans colled ariannol i bob un o'u haelodau ar gyfer dyletswyddau tu allan i ardal y cyngor yn unol â'r cyfraddau a drefnwyd.**

**92.** **Pwll y Grawys Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at y cyfnewid e-byst gyda CSDd. Cytunwyd i ohirio'r mater am na dderbyniwyd y wybodaeth a addawyd.

**93.** **Inffyrmari Dinbych.** Dywedodd clerc y dref fod hon yn eitem agenda yn unol â chais cyfarfod Brys mis Awst. Cyhoeddodd y cadeirydd air o rybudd - roedd y mater wedi codi allan o erthygl yn y cyfryngau ynglŷn â digwyddiad honedig yn yr Inffyrmari - roedd ymholiad cyfredol gan y Bwrdd Iechyd. Dywedodd y Cyng Mark Young ei fod wedi cael profiad personol o driniaeth gwerth chweil yn yr Inffyrmari. Cytunwyd yn unfrydol i adael y mater ar y bwrdd.

**94.** **Symposiwm TCE 30.9.15 - 3.10.15**. Atgoffodd clerc y dref yr aelodau y byddai'n mynychu ac yn adrodd yn ôl. Derbyniwyd gwybodaeth hwyr oddi wrth TCE yn dweud mai ond un enwebiad a dderbyniwyd ar gyfer Llywydd a hynny ar gyfer y deiliad presennol Joseph Spiteri. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau ar gyfer y swydd o ail is lywydd a'r swydd o drysorydd. Dywedodd clerc y dref ei bod hi'n drist na dderbyniwyd enwebiadau - bydd angen i'r Cyfarfod Blynyddol ddatrys hyn.

95. **Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.** Cyfeiriodd clerc y dref at y dogfennau a dderbyniwyd oddi wrth yr ysgrifennydd. Hwn oedd ymateb y gymdeithas i Swyddfa Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Cytunwyd i gyfeirio’r ddogfen at yr is bwyllgor archwilio dogfennau ac i’r ymateb gael ei yrru i glerc y dref a’r cadeirydd.

Cyn dirwyn y cyfarfod i ben dymunodd y cadeirydd ymddeoliad hapus i’r Cyng Brian Davies o’i waith

Am nad oedd mwy i’w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.39 o’r gloch.

Arwyddwyd:.......................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:.........................